# Eich Newyddlen



Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

**RHIFYN 17** — **Gwanwyn/Haf 2026**


## Arolwg Preswylwyr a Thenantiaid 2025 – Gofynnon ni am eich barn a dyma beth ddywedoch chi wrthym ni!

Diolch i bawb a gymerodd ran yn ein Harolwg Preswylwyr a Thenantiaid yn 2025! Mae eich barn yn hollbwysig wrth inni gynllunio gwasanaethau ar eich cyfer. Cawsom ymateb ardderchog unwaith eto gyda 847 o bobl yn llenwi'r arolwg, neu 26% o'n holl aelwydydd. Daeth pump o brif faterion i'r amlwg:

### Gwasanaeth cyffredinol

**Mae 84%** o'n tenantiaid yn fodlon ar y cyfan â'r gwasanaeth a ddarparwn

### Rhent




**Mae 84%** o'n tenantiaid o'r farn bod y rhent yn werth yr arian

### Atgyweiriadau



**Mae 82%** o'n tenantiaid yn fodlon â'r gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw

### Hawdd delio â



**Mae 82%** o'n tenantiaid yn ei chael yn hawdd delio â ni, yn canmol proffesiynoldeb a chwrteisi ein canolfan gyswllt a'n timau tai a thrwsio

**Rydym wedi llunio nifer o argymhellion ar sail canlyniadau'r arolwg, a byddwn yn rhoi sylw i:**

- Apwyntiadau gwaith trwsio.
- Porth i denantiaid.
- Effeithlonrwydd ynni.
- Safonau cynnal a chadw gerddi.
- Ymgysylltu â thenantiaid.
- Ymwybyddiaeth o Safon Ansawdd Tai Cymru.
- Archwiliadau ansawdd.
- Gorfodi cytundebau tenantiaeth yn llymach.
- Cyfathrebu ynglŷn â gwaith trwsio.

**I gael mwy o wybodaeth am yr arolwg, cymerwch olwg ar Tudalen 4**

### Ansawdd y cartref



**Mae 81%** o'n tenantiaid yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eu cartrefi

**Digwyddiadau'r Haf** Tudalen 15

**Ymgysylltu â thenantiaid** Tudalen 13

**Cadw'ch Cartref yn Ddiogel – pam ei bod yn bwysig ein gadael i mewn** Tudalen 18

Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk
@TaiSirDdinbych

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Neges gan Geoff Davies, Swyddog Arweiniol Tai Cymunedol

***Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen. Hyderwn y bydd yn ddifyr ichi ei darllen.***

Yn gyntaf oll, diolch o galon i bawb a lenwodd yr Arolwg Preswylwyr a Thenantiaid. Rydym yn defnyddio'r ymatebion i weld beth allwn ei wella a deall beth sy'n bwysig i chi. Mae'r newyddlen yn cynnwys gwybodaeth ar dudalen 4 am y canlyniadau a'r hyn y bwriadwn ei wneud i wella y gwasanaeth. Mae lefelau boddhad â'n gwasanaethau'n dal ymysg y rhai gorau yng Nghymru ac er ein bod yn falch iawn o hynny, gwyddom fod arnom angen dal i wella gan nad ydym yn cael pethau'n iawn bob tro.

Rydym bob amser yn awyddus i glywed eich barn felly mae croeso ichi gysylltu â ni'n uniongyrchol neu drwy Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych. Mae'r rhifyn hwn hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth am sut y gallwch gymryd rhan i'n helpu i ddal ati i wella a datblygu ein gwasanaethau.

Yn olaf, hoffwn dynnu eich sylw at un o'r erthyglau pwysig yn y newyddlen hon ar dudalen 18. Rydym yn sylwi bod mwy a mwy o denantiaid yn gwrthod ein gadael i mewn i'w tai i wneud profion diogelwch. Mae'n rhaid gwneud y profion hyn yn ôl y gyfraith er mwyn eich helpu i gadw'n ddiogel yn eich cartrefi. Gwyddom eu bod weithiau'n anghyfleus neu'n drafferthus ac efallai bod gennych



bryderon amdanynt. Mae'r erthygl hon yn egluro pam fod y profion diogelwch yn bwysig a sut y gallwn leddfu unrhyw bryderon sydd gennych. Dymunwn geisio gwella'r ffordd yr ydym ni a'n contractwyr yn cynnal y profion hyn, bod yn fwy effeithlon a chynnig amseroedd sy'n gweddu i chi. Os ydym ni wedi cysylltu â chi i drefnu prawf diogelwch neu'n gwneud hynny yn y dyfodol, cofiwch siarad â ni am unrhyw broblemau sydd gennych, er mwyn inni eu datrys gyda'n gilydd a gwneud yr holl brofion angenrheidiol yn eich cartref.

Ar dudalen 4 mae cyflwyniad hefyd i Heidi McDougall, Pennaeth Tai a Chymunedau newydd y Cyngor.

Fel bob amser, os oes gennych rywbeth i'w gynnwys yn y newyddlen, rhowch wybod inni drwy anfon e-bost i **tai@sirddinbych.gov.uk**

## IYn y rhifyn hwn

### Tai Sir Ddinbych:

02 Neges gan Geoff
04 Canlyniadau Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr (STAR)
06 Uchafbwyntiau Perfformiad ac Argymhellion
18 Cadw eich cartrefi'n ddiogel – pam mae'n bwysig gadael i ni ddod i mewn

### Cymuned a Phobl:

03 Neges gan DTARF
04 Dan y Chwyddwydr – Heidi McDougall, Pennaeth Gwasanaeth
14 Diweddariad ar Wydnwch Cymunedol
15 Digwyddiadau'r Haf
16 Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a Hawliau Rhentwyr

### Buddsoddi ac Gwelliannau:

08 Cartrefi newydd y Cyngor wedi'u cwblhau yn Ninbych
09 Prosiectau gwella tai
10 Diweddariad ar Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023
12 Gwaith wedi'i gynllunio sydd ar y gweill
13 Cymuned Llwyn Eirin yn dod ynghyd
13 Gwaith gwella yn Llys y Felin
15 Gwedd newydd ffres i Barc Bruton

AELODAU 2026-27 TPAS CYMRU CEFNOGI LLAIS Y TENANT

**Gellir ailgylchu'r 100% or newyddlen hon.**

FSC www.fsc.org MIX Paper from responsible sources FSC® C006518

Unwaith y byddwch wedi darllen y newyddlen, gallwch ei rhoi ym mlwch uchaf eich Trolibocs sydd â chaead glas



# Diweddariad Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (DTARF)

**Helo bawb,**
Bu'n flwyddyn brysur arall ac un lwyddiannus i Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych wrthi inni ddal i ehangu ein cysylltiadau â thenantiaid a sicrhau bod Tai Sir Ddinbych yn clywed lleisiau'r tenantiaid.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf, buom yn gweithio'n ddiwyd i wella'r ffordd y mae tenantiaid a gwasanaethau tai'n cyfathrebu â'i gilydd a chreu perthnasoedd cryfach â rheolwyr a'r bobl sy'n penderfynu. Aethom i gyfarfodydd yn rheolaidd i ddal ati i herio, gofyn cwestiynau a chyfrannu at drafodaethau am bob math o faterion tai, gan helpu i sicrhau bod safbwyntiau'r tenantiaid yn ganolog i ddatblygu a gwella gwasanaethau. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

---

Ymweld â Thŷ Gwyrddfai ger Caernarfon i ddysgu mwy am arferion gorau wrth ddatgarboneiddio tai cymdeithasol.

---

Ehangu'r aelodaeth i gynnwys cynrychiolaeth o Langollen.

---

Cynhelir cyfarfodydd yn Llygadog, Clawdd Poncen bellach er mwyn hybu presenoldeb aelodau o dde Sir Ddinbych.

---

Atgyfnerthwyd y trefniadau llywodraethu ac mae'r Ffederasiwn bellach yn cymryd cofnodion o'r holl gyfarfodydd yn annibynnol (swyddogion Cyngor Sir Ddinbych a wnâi hynny yn y gorffennol).

---

Bu'r Ffederasiwn yn cynrychioli tenantiaid Tai Sir Ddinbych yng Nghynhadledd Genedlaethol TPAS Cymru.

---

Yn ogystal â chyflawni ein rhaglen waith (gweler y rhestr isod o dan Edrych ymlaen at 2026/27), rydym wedi:

- Cwrdd â gwahanol dimau, gan gynnwys y Ganolfan Gyswllt Tai, y Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid, y Gwasanaeth Ieuenctid a Theuluoedd yn Gyntaf/Dechrau'n Deg.
- Cymryd rhan yn yr Arolwg Preswylwyr a Thenantiaid yn ddiweddar ac ymarferion eraill i reoli perfformiad.
- Derbyn hyfforddiant Sgiliau Bywyd Barclays.

Cynhaliom ein Cyfarfod Blynyddol yn ddiweddar ac roedd hi'n braf gweld cymaint o ddiddordeb gan denantiaid o bob cwr o'r sir. Mae'n gyffrous inni gael croesawu cynrychiolwyr newydd o'r gwahanol gymunedau rydym yn ymweld â nhw bob mis. Mae denu mwy o bobl i gymryd rhan yn rhoi gwell dealltwriaeth inni o bryderon pobl leol, yn rhoi cyfle i ddathlu llwyddiant a sicrhau y caiff lleisiau cymaint â phosib o denantiaid eu clywed mewn sgyrsiau am wasanaethau tai.

## Edrych Ymlaen at 2026/27

Mae gennym raglen gyffrous ac uchelgeisiol o bynciau ar y gweill. Mae'r rhain wedi'u dethol gan eu bod o bwys i denantiaid a phreswylwyr ac yn rhoi cyfleoedd inni ddylanwadu ar wasanaethau a gofyn cwestiynau pwysig ar eich rhan chi.

Yn y flwyddyn i ddod, bydd y Ffederasiwn yn trafod:

- Pennu blaenoriaethau Tai Cymunedol
- Synwyryddion Cartref AICO
- Taliadau gwasanaeth
- Y wybodaeth ddiweddaraf ar y wefan
- Monitro perfformiad Tai
- Y farn ynglŷn â Chynnal a Chadw Gerddi
- Rhenti'n cynyddu
- Prosiect proffilio tenantiaid
- Cynllun Gwaith Cyfalaf

Rydym yn benderfynol o fod yn llais cryf, annibynnol ar ran y tenantiaid ac yn annog unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwasanaethau tai neu faterion cymunedol i ymuno â ni. Os hoffech chi ddod i gyfarfod, dysgu mwy am ryw bwnc sy'n cael ei drafod neu gael gwybod pryd fyddwn ni'n ymweld â'ch ardal chi, byddem wrth ein bodd yn clywed oddi wrthoch.

**John, Cadeirydd y Ffederasiwn**
**dtarf1@outlook.com**

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

## NEGESFWRDD

**I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:**

Dydd Llun i ddydd Iau 9:00am-5:00pm,
Dydd Gwener 9:00am-4:30pm
**01824 706000**

Argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa
**0300 123 3068**

Galw Gofal (Llinell Ofal)
**0300 123 6688**

Un Pwynt Mynediad ar gyfer atgyfeiriadau am gefnogaeth
**0300 456 1000**

Argyfwng nwy **0800 111 999**

Argyfwng trydan **0800 3163 105**

Galw Iechyd Cymru **111**

Floodline **0345 988 1188**

Type Talk **0345 602 6340**



# Pennaeth Gwasanaeth Newydd

## Dyma gyflwyno ein Pennaeth Tai a Chymunedau newydd – Heidi McDougall



**Annwyl Denantiaid**

Rwy'n falch iawn o gael cyflwyno fy hun fel Pennaeth Tai a Chymunedau newydd Cyngor Sir Ddinbych. Ymunais â'r Cyngor yn ôl ym mis Chwefror ac ers hynny, rydw i wedi bod yn crwydro o amgylch y sir yn cwrdd â llawer iawn o bobl a phartneriaid newydd ac ymweld â'r ystadau i gael golwg iawn ar yr eiddo rydym yn ei reoli.

Mae tai'n rhan hanfodol o fywydau pawb. Mae tŷ diogel sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda'n gosod y sylfaen i bobl ffynnu. Rwy'n falch o ymuno â gwasanaeth sy'n ymrwymo i gefnogi cymunedau a darparu gwasanaethau a chartrefi o'r radd flaenaf ledled Sir Ddinbych.

Mae gennyf angerdd dros wasanaeth cyhoeddus a gwneud gwahaniaeth er gwell ym mywydau preswylwyr. Gydol fy ngyrfa, rwyf wedi gweithio i wella gwasanaethau tai, cryfhau cymunedau a sicrhau fod cwsmeriaid yn ganolog i bob penderfyniad rwy'n ei wneud. Yn fy swydd newydd, rwy'n ymrwymo i feithrin cyswllt â thenantiaid, deall eich profiadau a gweithio gyda staff a phartneriaid wrth ddal i wella'r gwasanaethau a ddarparwn.

Hoffwn ddiolch i'r holl denantiaid a atebodd yr Arolwg Preswylwyr a Thenantiaid. Mae'r canlyniadau wedi rhoi gwell syniad inni o'r gwasanaethau a ddarperir ac wedi amlygu rhai o bethau i'w gwella. Mae'ch barn chi'n hollbwysig a bydd yn ein helpu i gynllunio gwasanaethau sy'n bodloni eich anghenion.

Mae'r sector tai'n wynebu llawer iawn o heriau a chyfleoedd ond rwy'n gwbl ffyddiog y gallwn, drwy gydweithio, ddal ati i ddarparu cartrefi graenus, rhoi cefnogaeth i bobl sydd ei hangen, creu cymunedau cynaliadwy a darparu gwasanaethau y gallwn oll fod yn falch ohonynt.

Hoffwn ddiolch ichi am y croeso cynnes rwyf wedi'i gael hyd yma. Rwy'n llawn cyffro am y dyfodol ac yn edrych ymlaen at weithio gyda thenantiaid a phartneriaid wrth ddatblygu'r gwaith bendigedig sydd eisoes yn digwydd.

# STAR 2025



Diolch i bawb a gwblhaodd Arolwg 2025.

Mae eich barn yn hollbwysig wrth inni gynllunio gwasanaethau ar eich cyfer.


Cawsom ymateb ardderchog unwaith eto gyda 847 o bobl yn llenwi'r arolwg, neu 26% o'n holl aelwydydd.



**Mae Tai Sir Ddinbych yn parhau i fod yn berfformiwr uchel o'i gymharu â Landlordiaid Cymdeithasol eraill Cymru.**




**Mae 84%**
o denantiaid yn fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir gan Tai Sir Ddinbych



**Mae 81%**
o denantiaid yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eu cartrefi




**Mae 82%**
o denantiaid yn fodlon â'r modd y mae Tai Sir Ddinbych yn ymdrin â gwaith trwsio a chynnal a chadw




**Mae 84%**
o denantiaid o'r farn bod y rhent yn werth yr arian



**Mae 65%**
o denantiaid yn fodlon bod Tai Sir Ddinbych yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt




**Mae 49%**
o denantiaid yn fodlon eu bod yn cael lleisio'u barn am y ffordd y rheolir gwasanaethau




**Mae 80%**
o denantiaid yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw



**Mae 57%**
o denantiaid yn fodlon â'r ffordd y mae Tai Sir Ddinbych yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol



**Mae 85%**
o denantiaid yn darllen y newyddlen



**Mae 69%**
o denantiaid yn dweud nad ydynt erioed wedi clywed am Safon Ansawdd Tai Cymru 2023




**Mae 82%**
o denantiaid yn ei chael yn hawdd delio â Thai Sir Ddinbych



**Mae 85%**
o denantiaid yn fodlon bod Tai Sir Ddinbych yn darparu cartref diogel a sicr iddynt



**Mae 80%**
o denantiaid yn fodlon â'r ffordd y darperir gwybodaeth iddynt yn ystod y broses gwaith trwsio



**Mae 68%**
o denantiaid o'r farn bod eu taliadau gwasanaeth yn werth yr arian



**Mae 53%**
o denantiaid yn fodlon â'r cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu



**Mae 77%**
o denantiaid yn dweud eu bod yn ymddiried yn Nhai Sir Ddinbych



**Mae 62%**
o denantiaid yn fodlon bod Tai Sir Ddinbych yn gwneud cyfraniad er gwell yn eu cymdogaeth



**Mae 67%**
o denantiaid yn fodlon â'r gwaith cynnal a chadw gerddi yn eu hardal



**Mae 72%**
o denantiaid a fyddai'n defnyddio porth ar-lein

# Uchafbwyntiau mewn perfformiad

Mae Tai Sir Ddinbych yn dal yn un o'r perfformwyr gorau yng Nghymru ac yn gyntaf o blith holl Awdurdodau Lleol Cymru mewn pedwar o brif gategorïau:

- **Boddhad â'r Gwasanaeth yn Gyffredinol: 84%**
- **Gwerth am Arian y Rhent: 84%**
- **Boddhad â Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw: 82%**
- **Boddhad ag Ansawdd y Cartref: 81%**

**Mae 82%** o'n tenantiaid yn ei chael yn hawdd delio â ni, yn canmol proffesiynoldeb a chwrteisi ein canolfan gyswllt a'n timau tai a thrwsio.

Yn ogystal â hynny, mae **77%**, yn ymddiried yn y gwasanaeth, 3% yn fwy na 2023.

**Ymgysylltu â thenantiaid:** Er bod y gwasanaethau craidd yn gadarn, nid cystal yw'r farn ynglŷn ag ymgysylltu â thenantiaid. Bu gostyngiad o 14% mewn boddhad â "chael lleisio barn am y ffordd y rheolir gwasanaethau" ers 2023 a gostyngiad o 4% mewn boddhad â chyfleoedd i gyfranogi o brosesau penderfynu".

**Gwasanaethau i gwsmeriaid:** Mae 82% o'n tenantiaid yn ei chael yn hawdd delio â ni, yn canmol proffesiynoldeb a chwrteisi ein canolfan gyswllt a'n timau tai a thrwsio.

**Gwella eiddo:** Er bod preswylwyr yn fodlon â'u cartrefi ar y cyfan, ceir cyfleoedd i gynyddu boddhad drwy amryw welliannau, sy'n dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

**Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol:** Bu gostyngiad o 5% mewn boddhad â'r ffordd y mae Tai Sir Ddinbych yn rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol ers 2023. Mynegodd preswylwyr bryderon na châi cytundebau tenantiaeth eu gorfodi mor effeithiol.

**Trwsio a chynnal a chadw:** Er bod 82% o'r preswylwyr yn fodlon â'r gwaith trwsio, ceir cyfle i wella hynny drwy weithredu ar sail eu sylwadau ynglŷn â chyfathrebu a sicrhau fod contractwyr allanol yn cyflawni'r un safonau uchel a'r timau mewnol.

**Gwasanaethau ar-lein:** Mynegwyd cryn frwdfrydedd am gynlluniau digidol newydd a dywedodd 72% o'r tenantiaid yr hoffent ddefnyddio porth ar-lein newydd i denantiaid. Mae'r newyddlen i denantiaid yn ddull effeithiol dros ben o gyfathrebu hefyd ac mae 85% o'r tenantiaid yn ei darllen.

**Ymddiriedaeth gref:** Mae ymddiriedaeth yn y gwasanaeth wedi cynyddu 3% ers 2023 (i 77%).

**Cynnal a chadw gerddi:** mae 67% o'r preswylwyr yn fodlon â chynnal a chadw gerddi yn eu hardal ond ceir cyfleoedd i wella hynny drwy glirio llwybrau ar ôl torri gwair, rheoli chwyn yn fwy cyson a thocio coed a gwrychoedd sydd wedi gordyfu.



# Argymhellion

**Apwyntiadau gwaith trwsio:** Cyflwyno system apwyntiadau gyda diwrnodau/amseroedd penodol sy'n fwy addas i bobl sy'n gweithio'n llawn amser ac yn gwneud amserlenni'n fwy eglur.

**Porth i denantiaid:** Lansio'r porth ar-lein i denantiaid (72% o'r tenantiaid o blaid hynny).

**Effeithlonrwydd ynni:** Rhoi blaenoriaeth i inswleiddio ac atal drafftiau drwy ddrysau a ffenestri, gan fod rhai wedi sôn ei bod yn anodd cadw eu cartrefi'n gynnes.

**Safonau cynnal a chadw gerddi:** Adolygu'r contractau a mynnu y caiff llwybrau eu clirio ar ôl torri gwaith, er mwyn atal y perygl o lithro a gwneud y palmentydd yn fwy trwsiadus.

**Ymgysylltu â thenantiaid:** Cyhoeddi gwybodaeth reolaidd i ddangos sut mae barn tenantiaid wedi arwain at newidiadau penodol mewn gwasanaethau. Cyflwyno "Dewislen Ymgysylltu" sy'n cynnig dewisiadau fel arolygon a phaneli tenantiaid.

**Ymwybyddiaeth o Safon Ansawdd Tai Cymru:** Datblygu mwy o ymgyrchoedd cyfathrebu ynglŷn â Safon Ansawdd Tai Cymru gan nad yw 69% o'r tenantiaid yn gwybod amdano. Edrychwchar dudlaen 10 am fwy o wybodaeth.

**Archwiliadau ansawdd:** Rheoli ansawdd gwaith contractwyr allanol yn llymach er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni'r un safonau uchel â'r tîm mewnol.

**Gorfodi cytundebau tenantiaeth yn llymach:** Cyfathrebu'n well i gyfleu'r disgwyliadau'n bendant ynglŷn â dealltwriaeth cymdogion o'u cyfrifoldebau i'r gymuned.

**Gohebu ynglŷn â gwaith trwsio:** Rhoi'r gorau i anfon llythyrau drwy'r post ac anfon cadarnhad ar unwaith drwy neges destun neu e-bost pan gaiff darn o waith ei drefnu neu'i addasu. Rhoi amserlen waith ysgrifenedig i denantiaid sy'n cynnwys y dyddiadau y bwriedir gwneud pob cam o'r gwaith trwsio.



# Cwblhau Tai Cyngor newydd yn Ninbych



## Mae tenantiaid bellach wedi ymgartrefu yn Llwyn Eirin, Dinbych mewn datblygiad o 22 o dai Cyngor newydd.



Er gwaethaf nifer o heriau gyda'r safle hwn mae ein holl denantiaid bellach wedi symud i mewn.

Mae'r cartrefi hyn yn enghraifft wych o'r ffordd y gall cefnogi pobl leol a helpu i sicrhau tai fforddiadwy wneud gwahaniaeth er gwell i fywydau pobl.

Mae ein tenantiaid wedi canmol y gefnogaeth a gawsant yn ystod y broses ddyrannu ac ansawdd eu cartrefi newydd. Dywedodd un preswylydd: *"Roedd y Swyddog Tai'n gefnogol iawn yn ein helpu ni. Mae'r tai'n hyfryd ac yn braf iawn y tu mewn."*

Soniodd un arall: *"Diolch ichi am ein cartref newydd hyfryd ni. Rydym ni'n mynd i elwa'n fawr arno. Roedd hi'n werth yr hir ymaros ac yn dda cael gwybodaeth bob cam o'r ffordd."*



Trefnodd ein Tîm Cydnerthu Cymunedol ddigwyddiad i roi cyfle i denantiaid newydd gwrdd â'u cymdogion a sgwrsio â sefydliadau partner i gael gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael yn Sir Ddinbych, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Sir Ddinbych yn Gweithio a Theuluoedd yn Gyntaf. Cafodd tenantiaid newydd gyfle hefyd i gymryd rhan mewn sesiwn crefftau gyda'r artist lleol, Jude Wood (a drefnwyd gan HSDd Cyf). I gael gwybod mwy am y digwyddiad hwnnw, cymerwch olwg ar dudalen Tudalen 13.

Adeiladwyd cartrefi Llwyn Eirin yn ôl y safon Passivhaus a gosodwyd paneli solar a phympiau gwres o'r ddaear ynddynt i greu lleoedd cyfforddus, iach a chynaliadwy i bobl fyw ynddynt.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i'r datblygiad drwy'r Rhaglen Tai Arloesol. Galluogodd hynny Gyngor Sir Ddinbych i weithio â Chreu Menter yn y Rhyl i ddarparu cydrannau ar gyfer y cartrefi newydd a gynhyrchwyd oddi ar y safle.

Meddai'r Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau: *"Mae'n wych gweld y tenantiaid yn ymgartrefu yn y tai newydd yn Llwyn Eirin. Mae'r datblygiad yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu tai graenus a fforddiadwy i bobl leol, a sicrhau bod y tai hynny'n addas at y dyfodol. Bydd y tai'n defnyddio ynni'n effeithlon a dylai hynny helpu preswylwyr i gwtogi ar gostau yn ogystal â'n helpu ni i gyflawni ein huchelgeisiau ehangach ar gyfer yr amgylchedd."*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mynd ar daith o amgylch y sir i hyrwyddo prosiectau gwella Tai

Aeth Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych, Helen White, a'r Pennaeth Tai a Chymunedau, Heidi McDougall, ar daith o amgylch y sir gyda thimau Tai ac Eiddo Cymunedol yn ddiweddar, ynghyd â'r Aelod Arweiniol ar gyfer Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas, i weld drostynt eu hunain yr amrywiaeth helaeth o waith gwella tai, datblygiadau newydd a phrosiectau cymunedol a ddarperir i breswylwyr.

Bu'r ymweliadau'n gyfle i dynnu sylw at y buddsoddiad yng nghartrefi presennol y Cyngor, y cynnydd a wnaed gyda datblygiadau tai newydd ac effaith gadarnhaol y cynlluniau i hybu gwytnwch cymunedol a'r amgylchedd.

Cynhaliwyd y daith gyntaf yng ngogledd y sir ym mis Ebrill, gan gynnwys ymweld â Gwynfryn Avenue, y Rhyl, lle gwnaed gwaith sylweddol i wella tai i deuluoedd yn yr ardal. Bu'r gwaith yn canolbwyntio ar ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, gan helpu preswylwyr i gwtogi ar eu costau ynni, a chreu cartrefi mwy cynaliadwy. Cafodd y grŵp gyfle i weld eiddo gwag hefyd, er mwyn gweld safon uchel y gwaith adnewyddu a gwblheir cyn trosglwyddo eiddo i'n tenantiaid newydd.

Aeth y daith ymlaen i Barc Bruton, y Rhyl, i weld cyfleusterau cymunedol sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Gwytnwch Cymunedol a Chefn Gwlad, cyn symud i Thornley Avenue lle mae'r gwaith yn parhau i osod to newydd a phaneli ffotofoltäig.

Wrth ymweld â Llys Llên, Prestatyn, cafwyd golwg ar y tai cyntaf y mae'r Cyngor wedi'u hadeiladu o'r newydd ers 30 mlynedd, ac aethpwyd i Orllewin y Rhyl i weld y dulliau dyfeisgar o ddarparu tai yno, gan gynnwys trosi hen swyddfa'n gartrefi graenus ac adnewyddu adeiladau Fictoraidd mawr i greu llety modern i deuluoedd.

Cynhaliwyd yr ail daith ym mis Mai, a oedd yn canolbwyntio ar dde'r sir. Dechreuodd yr ymweliad yng Nghanolfan Gymunedol Pengwern, lle rhannodd staff o Bartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych gwybodaeth am yr amrywiaeth helaeth o weithgareddau a gwasanaethau cefnogi sydd ar gael i breswylwyr lleol.

Yna, teithiodd y grŵp i Glawdd Poncen, Corwen, i ymweld â Llygadog, cynllun tai i bobl hŷn, lle cafwyd golwg ar yr adeilad, y gerddi a'r cyfleusterau cymunedol ar eu newydd wedd wedi'r gwaith gwella yn ddiweddar, ynghyd â'r gweithgareddau sy'n helpu preswylwyr i gynnal eu lles corfforol a'u cyswllt â phobl eraill.

Daeth y daith i ben yn Ninbych wrth ymweld â'r cartrefi newydd yn Llwyn Eirin ac yn olaf, Lloyd Avenue, i weld eiddo a adnewyddwyd yn ddiweddar a'r trac pwmpio poblogaidd, sy'n lle gwerthfawr i blant a phobl ifanc leol hamddena.

Meddai'r Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau: "Roedd yr ymweliadau hyn yn gyfle gwych i weld y gwahaniaeth cadarnhaol mae ein buddsoddiad yn ei wneud i gymunedau ledled Sir Ddinbych drosom ein hunain. O wella'r ansawdd ac effeithlonrwydd ynni cartrefi presennol y cyngor i ddarparu tai fforddiadwy newydd a chefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned, rydym wedi ymrwymo i greu lleoedd lle gall pobl ffynnu.

"Roedd hi'n arbennig o galonogol cwrdd â staff a phartneriaid sy'n helpu i gyflawni'r prosiectau hyn, ac i weld y manteision maent yn eu cynnig i breswylwyr. Mae'r ystod o waith sy'n cael ei gynnal ledled y sir yn arddangos ein hymrwymiad i ddarparu cartrefi o safon uchel, mynd i'r afael â heriau'r hinsawdd, ac adeiladu cymunedau cryfach, mwy gwydn ar gyfer y dyfodol."

Amlygodd yr ymweliadau hyd a lled y buddsoddiad sy'n cael ei gynnal ledled Sir Ddinbych, o wella cartrefi presennol, ac adeiladu tai newydd i gefnogi cymunedau cryfach, mwy gwydn.

Mae'r gwaith hefyd yn ategu'r flaenoriaeth yn ein Cynllun Corfforaethol i sicrhau bod gan Sir Ddinbych ddigon o dai o safon sy'n diwallu anghenion pobl.

# Cyflwyno'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd (SATC 2023) – Beth mae'n ei olygu i chi!

Dywedodd 69% ohonoch a gwblhaodd yr Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr nad oeddech wedi clywed amdanynt. Hyderwn y bydd yr erthygl hon yn egluro'n fanylach beth fydd hyn yn ei olygu i chi, ein tenantiaid, a sut y bwriadwn gyflawni'r safonau newydd.

## 1. Beth yw Safon Ansawdd Tai Cymru 2023?

Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd LlC set newydd o safonau ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd da i denantiaid, sy'n addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a'r dyfodol.





## 2. Beth yw'r prif bethau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau newydd

Er mwyn i ni fodloni safonau LlC, mae'n rhaid i'ch cartrefi:

- **Fod mewn cyflwr da**
  - Mae'n rhaid i'r waliau fod mewn cyflwr da, ac nid yn wan nac yn disgyn i lawr
  - Ni ddylech fod â thamprwydd yn eich cartref.
  - Dylai'r grisiau fod yn ddiogel.

- **Bod yn saff a diogel**
  - **Dylai drysau a ffenestri** fod yn saff a diogel. Byddwn yn dilyn canllawiau'r Heddlu Diogelu drwy Ddylunio i weld sut allwn ni wneud hyns.
  - **Diogelwch tân:** mae'n rhaid i gartrefi gael synwyryddion gwres a mwg.
  - Mae'n rhaid i chi gael ffordd hawdd a diogel i **ddianc os oes tân**
  - **Diogelwch nwy a gwresogi:** mae'n rhaid i gartrefi gael synhwyrydd carbon monocsid.
  - **Gwiriadau diogelwch yn y cartref:** os oes gan gartrefi systemau nwy, olew neu danwydd solet, mae'n rhaid i ni gynnal gwiriad diogelwch unwaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni roi copi i chi o'r gwiriadau diogelwch.
  - **Diogelwch trydanol:** dylai eich cartref gael gwiriad diogelwch trydanol bob 5 mlynedd, a byddwn yn rhoi copi i chi.

- **Ni ddylai fod yn rhy ddrud i'w wresogi. Ac ni ddylai fod yn niweidiol i'r amgylchedd.**
  - Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw gwresogi eich cartref yn costio gormod o arian. A sicrhau nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd.
  - Mae'n rhaid i'ch cartref adael i aer lifo drwyddo, yn enwedig mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi.
  - Dylai fod gan eich cartrefi osodiadau a chyfarpar sy'n atal dŵr rhag cael ei wastraffu. Gall hyn eich helpu i gadw eich biliau dŵr i lawr ac mae'n dda i'r amgylchedd

- **Yn cynnwys ardal amlbwrpas a chegin fodern**
  - Dylai'r ceginau fod mewn cyflwr da.
  - Dylai fod gan geginau newydd le ar gyfer popty, oergell a pheiriant golchi, a chyfarpar arall os oes angen.

– Mae'n rhaid i loriau'r gegin fod yn rhai di-lithr.
– Os nad oes unrhyw le i olchi a sychu dillad, dylem ddarparu peiriant sychu dillad.

- **Yn cynnwys ystafell ymolchi fodern**
  – Dylai'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau fod yn llai na 26 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
  – Mae'n rhaid i'r ystafell ymolchi fod â llawr di-lithr.
  – ylent gynnwys cawod a bath os yw'n bosibl. Gall y gawod fod uwchben y bath.

- **Cyfforddus ac addas i'r sawl sy'n byw yno**
  – Dylai eich cartref fod â digon o le i fyw ynddo'n gyfforddus.
  – Lloriau – Pan fydd tenantiaid newydd yn symud i mewn, mae'n rhaid i'r holl ystafelloedd fod â'r math cywir o loriau a bod mewn cyflwr da.
  – Sŵn – Dylai'r waliau a'r ffenestri fod o ansawdd da, fel nad yw sŵn normal yn achosi unrhyw drafferth i chi.
  – Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y cartref yn addas i'ch anghenion, yn cynnwys tenantiaid anabl a hŷn.

- **Bod â gardd os yw'n bosibl**
  – Nid yw bob amser yn bosibl cael gardd gan ei fod yn dibynnu ar le rydych chi'n byw.
  – Dylech allu mynd i'ch gardd yn ddiogel ac yn hawdd.
  – Dylai fod llwybr i chi allu cerdded arno.
  – Os yw'n bosibl, dylem ddarparu lein sychu dillad, a dylai fod llwybr yn arwain ato.
  – Dylech fod â man storio y gellir ei gloi y tu allan. E.e. i storio beic neu offer gardd.

- **Bod â man braf y tu allan os yw'n bosibl**
  – Mae angen i ni geisio creu man braf y tu allan, sy'n hawdd i ofalu amdano.
  – Dylai'r gofod fod yn gyfeillgar i fywyd gwyllt.
  – Dylai fod digon o blanhigion a choed o gwmpas sydd hefyd yn gadael golau'r haul drwodd.
  – Os nad oes gennych chi eich gardd eich hun, dylem ddarparu digon o le storio y tu allan i chi ar gyfer beics, pramiau neu sgwteri symudedd.

## 3. Beth yw'r amserlenni?

**Dyma'r prif derfynau amser y byddwn yn gweithio tuag atynt:**

**31 Mawrth 2027:**

– Cynhyrchu ein Llwybrau Ynni Targed gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym o asesiadau eich cartref. Mae Llwybr Ynni Targed yn dangos i ni beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau bod gan eich cartref system wresogi y gallwch chi fforddio i'w droi ymlaen.

**31 Mawrth 2034:**

– Mae'n rhaid i ni fodloni'r safonau hyn.

## 4. Beth ydych chi wedi'i wneud hyd yma?

Hyd yma, rydym wedi bod yn gweithio drwy'r safonau SATC 2023 a rhoi cynllun gweithredu at ei gilydd. Ym mis Gorffennaf, bu i ni ddiweddaru Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar ein cynnydd a'r hyn yr oeddem am ei wneud nesaf.

I helpu i lywio'r gwaith, rydym hefyd wedi gwrando ar eich ymatebion ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall sut yr hoffech i SATC 2023 gael ei siapio. Dros y misoedd nesaf, a thrwy gydol y rhaglen SATC 2023, byddwn yn cynnig cyfleoedd i chi ymgysylltu â ni a dweud wrthym beth sy'n bwysig i chi a'ch blaenoriaethau ar sut ydym yn darparu'r rhaglen hon i chi.

## 5. Sut fydd hyn yn cael ei ariannu?

Bydd y gwelliannau sydd eu hangen i fodloni'r safonau newydd yn cael eu hariannu gan ganran o Lwfans Atgyweiriadau Mawr LlC, cyllid grant arall a rhenti tenantiaid.

## 6. Sut allaf i gymryd rhan?

Rhan bwysig o'r safonau newydd hyn yw eich cyfranogiad a'ch ymgysylltiad yn y broses. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ac rydym yn gobeithio sefydlu grŵp gorchwyl gyda thenantiaid yn y dyfodol.

Os hoffech fod yn rhan o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, neu'n rhan o grŵp gorchwyl o denantiaid, a'n cefnogi ni i roi'r SATC ar waith, cysylltwch â ni ar **01824 706000** neu anfonwch e-bost at **tai@sirddinbych.gov.uk**

## 7. Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth am beth mae'r safonau hyn yn ei gynnwys, ewch i https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwaith sydd ar fin dechrau:

Rydym bron â chwblhau ein rhaglen o welliannau allanol yn ein fflatiau ar Vale Road, Victoria Road, Williams Street a Thornley Avenue yn y Rhyl.

Rydym bron â chwblhau ein rhaglen o welliannau allanol yn ein fflatiau ar Vale Road, Victoria Road, Williams Street a Thornley Avenue yn y Rhyl. Mae'r gwaith a wnaed drwy ein Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi cynnwys gosod toeau newydd sbon a gosod paneli solar i helpu ein tenantiaid i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon yn eu cartrefi.

Fel rhan o'r cynllun, rydym hefyd wedi inswleiddio nenfydau'n well a gosod mesuryddion amgylcheddol i fonitro ansawdd yr aer i'n tenantiaid.

Rydym hefyd wedi gosod paneli solar ar 45 o adeiladau eraill a gafodd doeau newydd yn y 12 mis diwethaf.

Bydd ein rhaglen nesaf o waith gwella allanol yn cynnwys tai yn St Davids Square, Kingsley Avenue, Gwalia Avenue a Victoria Road yn y Rhyl, yn ogystal â rhaglen ar raddfa lai i wella amryw dai yn Rhewl. Bydd y gwaith yn cynnwys gosod toeau newydd, ail-rendro, gosod paneli solar a gosod ffasgiau, soffits a landeri newydd. Mae'r gwaith dylunio'n dod yn ei flaen ar hyn o bryd a disgwylir dechrau'r gwaith yn yr hydref eleni.











Yn ogystal â hynny, byddwn hefyd yn cychwyn ein rhaglen nesaf i wella ceginau ac ystafelloedd ymolchi ar Rhydwen Drive, y Rhyl yn yr haf. Rydym wedi penodi'r contractwr NWPS Cyf i wneud y gwaith ac mae'r amserlen ar y gweill ar hyn o bryd. Wrth weithredu'r rhaglen honno, cynhelir arolygon o dai ar Gwynfryn Avenue, y Rhyl hefyd wrth baratoi ar gyfer y cylch nesaf o waith gwella. Os yw'r gwaith uchod yn cynnwys eich cartref chi, fe gysylltwn â chi yn ystod yr haf.

Cynllunnir y gwaith gwella mewn cylchoedd ac yn unol â manylebau a gytunwyd. Mae rhai o'r cylchoedd hynny'n dibynnu ar Safon Ansawdd Tai Cymru, sydd â'r nod o sicrhau fod safonau tai'n dal i wella.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen 10.

## Pytiau eraill o newyddion – Llys y Felin, Llanelwy

Rydym wedi cwblhau'r gwaith gwella yn Llys y Felin yn Llanelwy gyda chymorth Dŵr Cymru, y Cynghorydd Martyn Hogg, SuDSPods a grant Rheoli Llifogydd yn Naturiol.

Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith hanfodol i wella'r to a gosod system wyrdd newydd sbon i amddiffyn rhag llifogydd. Gosodwyd bocsys planhigion a chelfi pwrpasol i gynorthwyo â rheoli llifogydd a gwella ansawdd y dŵr, gan hefyd roi hwb i fioamrywiaeth. I gael mwy o wybodaeth am y prosiect, ewch i dudalen 14.





# Cymuned Llwyn Eirin yn dod ynghyd i gwrdd â'u cymdogion newydd

Daeth trigolion Llwyn Eirin ynghyd yn HWB Dinbych yn gynharach eleni ar gyfer digwyddiad cymunedol llwyddiannus 'Cwrdd â'ch Cymdogion'.



Tai Sir Ddinbych a thîm Cydnerthu Cymunedol y Cyngor a drefnodd y digwyddiad, a fu'n gyfle i denantiaid Llwyn Eirin ddod at ei gilydd ar ôl symud i mewn i'w cartrefi ddechrau'r flwyddyn. Roedd sefydliadau partner yn bresennol hefyd i gryfhau cysylltiadau â'r gymuned a rhoi gwybod i'n tenantiaid am yr amrywiaeth helaeth o gefnogaeth sydd ar gael iddynt yn Ninbych.

Cafodd ein tenantiaid gyfle i gwrdd â chynrychiolwyr Dechrau'n Deg / Teuluoedd yn Gyntaf, Tai Sir Ddinbych a Sir Ddinbych yn Gweithio. Buont hefyd yn cymryd rhan mewn sesiwn crefftau â'r artist lleol Jude Wood ( a drefnwyd gan HSDd) ac yn mwynhau lluniaeth ysgafn mewn awyrgylch braf a chroesawgar.

Meddai'r Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas:

*"Roedd hi'n wych gweld cymaint o breswylwyr yn y digwyddiad yn manteisio ar y cyfle i gysylltu â'i gilydd a chael gwybod am wasanaethau lleol.*

*"Drwy gael y partneriaid i gyd o dan yr un to, mae'n haws i bobl gael cyngor a chefnogaeth ac mae'n helpu i greu perthynas gryfach â'r gymuned.*

*"Mae digwyddiadau fel hyn yn dangos mor gryf yw'r gymuned yma yn Ninbych ac rydym yn ddiolchgar i bawb a ddaeth i gyfrannu at brynhawn mor dda."*

Dymunwn ddiolch i'n holl bartneriaid a thenantiaid a fu'n cefnogi'r digwyddiad a sicrhau ei fod yn llwyddiant, a hyderwn y bydd pawb yn Llwyn Eirin yn hapus iawn yn eu cartrefi newydd.

Cyfrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer y datblygiad drwy'r Rhaglen Tai Arloesol, sydd wedi galluogi Cyngor Sir Ddinbych i weithio â Chwmni Buddiannau Cymunedol Creu Menter yn y Rhyl i gynhyrchu cydrannau tai oddi ar y safle a roddwyd at ei gilydd drwy ddulliau adeiladu cyfoes.

## Llys y Felin, Llanelwy

Mae'n falch gennym gyhoeddi fod Pwyllgor Llys y Felin wedi'i ail-sefydlu gydag enw newydd, Pwyllgor Cymdeithasol a Chymunedol Elwy.



Wedi ffurfio o'r newydd, bydd y pwyllgor yn canolbwyntio ar gefnogi'r gymuned leol, annog pobl i gymdeithasu a datblygu gweithgareddau a chyfleoedd er budd preswylwyr o bob oed.

Mae'r pwyllgor newydd eisoes wedi dechrau cynnal gweithgareddau cymunedol llwyddiannus. Daeth nifer dda iawn o bobl i'r cwis cymdeithasol yn ddiweddar lle cafodd pawb gyfle i ymlacio a chael hwyl.

Mae'r Tîm Cydnerthu Cymunedol a Hamdden Sir Ddinbych Cyf hefyd wedi cynnal sesiynau celf a chrefft a Boccia yn y ganolfan, sy'n gyfle gwerthfawr i bobl gymdeithasu, creu cysylltiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cynhwysol yn y gymuned.

## Diweddariad Ymgysylltu â Thenantiaid TESA

Yn 2025, ni oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gwblhau Asesiad Safonau Ymgysylltu â Thenantiaid TPAS Cymru.




Roedd yr asesiad yn defnyddio gwirio annibynnol, craffu, cyngor, myfyrdod a thystiolaeth yn sail i ddeall ein perfformiad wrth ymgysylltu â thenantiaid Tai Sir Ddinbych a llunio argymhellion ar gyfer gwella.

Mae'r Asesiad, ynghyd â'r gofynion newydd ar gyfer ymgysylltu yn Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, wedi rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd ymgysylltu â thenantiaid ac wedi creu cyfleoedd newydd cyffrous, fel datblygu strategaeth newydd ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid a chynnig amrywiaeth o ffyrdd i denantiaid ddewis ymwneud â ni.

Cadwch lygad am y newyddlen yn yr hydref i gael gwybod mwy am hyn!



## Pwnc Trafod Tenantiaid – Eich Rhent a Fforddiadwyedd

Yn yr Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr yn ddiweddar, fe sonioch fod y gwasanaethau craidd yn gryf ond fod yno wendidau yn y ffordd rydym yn ymgysylltu â thenantiaid.



Bu gostyngiad o 14% mewn boddhad â "chael lleisio barn am y ffordd y rheolir gwasanaethau" ers 2023 a gostyngiad o 4% mewn boddhad â "chyfleoedd i gyfranogi o brosesau penderfynu". Dymunwn sicrhau y gallwch leisio'ch barn ynglŷn â'r gwasanaethau sydd bwysicaf i chi. Dyna pam fyddwn yn cynnal Arolwg Rhent a Fforddiadwyedd cyn bo hir i gael ychydig mwy o wybodaeth amdanoch.

Bydd yn gyfle ichi rannu eich safbwyntiau a phrofiadau er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth inni o beth sy'n fforddiadwy i'n tenantiaid a sut y gallwn ystyried eich ymatebion wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.

Dim ond ychydig funudau y mae'n ei gymryd i gwblhau'r arolwg, ond gallai'ch cyfraniad chi wneud gwahaniaeth go iawn.

Cadwch olwg am fwy o wybodaeth yn yr wythnosau nesaf a gwahoddiad i gymryd rhan drwy neges destun neu e-bost. Os hoffech wneud yr arolwg ar bapur, cysylltwch â ni ar fe bostiwn un allan i chi. Rydym yn annog pawb i leisio'u barn a'n helpu i lunio gwasanaeth sy'n gweithio i bawb.

# Digwyddiadau’r haf:

Byddwn yn mynd ar grwydr yn yr haf a byddai’n wych eich gweld chi yn un o’r digwyddiadau isod:

| DYDDIAD | LLE | AMSER |
|---|---|---|
| **21.7.26** | Corwen (Clawdd Poncen) | 10am – 12pm |
| **21.7.26** | Llangollen (Pengwern) | 1:30 – 3:30pm |
| **22.7.26** | Llanelwy (Canolfan Gymunedol Llys y Felin) | 10am – 12pm |
| **22.7.26** | Canolfan Ieuenctid Prestatyn | 11am – 3pm |
| **27.7.26** | Y Rhyl (Parc Bruton) | 10am – 12 pm & 2-4pm |
| **30.7.26** | Rhuthun (Canolfan Gymunedol Trem y Foel) | 10am – 12pm |
| **30.7.26** | Dinbych (Canolfan Gymunedol Cysgodfa) | 1 – 3pm |
| **4.8.26** | Corwen (Clawdd Poncen) | 10am – 12pm |
| **4.8.26** | Dinbych (Cae Hywel) | 10am – 2pm |
| **4.8.26** | Llangollen (Pengwern) | 1:30 – 3:30pm |
| **4.8.26** | Dinbych (Hwb) | 3-5pm |
| **13.8.26** | Dinbych (Cae Hywel) | 2 – 3:30pm |
| **17.8.26** | Y Rhyl (Caeau Chwarae Rhydwen Drive) | 1:30 – 3:30pm |
| **19.8.26** | Canolfan Ieuenctid Prestatyn | 11am – 3pm |
| **26.8.26** | Llanelwy (Canolfan Gymunedol Llys y Felin) | 10am – 12pm |



Cadwch olwg ar ein cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am ein digwyddiadau. Allwn ni ddim aros i’ch gweld chi!

## Pwll Parc Bruton ar ei Newydd Wedd!

Yr haf diwethaf, bu’r prosiect Dotiau’n holi preswylwyr Parc Bruton am eu barn ynglŷn â’r ardal leol, a bu pobl yn sôn am bryderon ynglŷn â materion amgylcheddol, gan gynnwys sbwriel, biniau gorlawn a chyflwr y warchodfa natur. Un o’r pryderon mwyaf oedd y difrod i’r llwyfan ar lan y pwll, a oedd wedi cau es mwy na chwe mis, gan roi golwg flêr ar yr ardal a chyfyngu ar fynediad at un o’r golygfeydd gorau o’r warchodfa.

Yn benderfynol o wneud gwahaniaeth, daeth y preswylwyr, y Tîm Cydnerthu Cymunedol a’r Gwasanaethau Cefn Gwlad ynghyd i gael trefn ar yr ardal. Drwy gyfuno adnoddau a chyllid, bu modd i’r prosiect fynd yn ei flaen.

Mae ymwelwyr bellach yn elwa ar lwybr newydd sy’n ei gwneud yn haws ac yn fwy cyfforddus i bawb fynd i’r warchodfa. Yn well fyth, mae un o’r llwyfannau ar lan y pwll wedi ailagor fel bod pobl unwaith eto’n medru mwynhau’r tawelwch a’r bywyd gwyllt sy’n gwneud y warchodfa mor arbennig.

Nid yn unig bod y gwaith wedi hwyluso mynediad, ond mae hefyd wedi helpu i greu lle glanach, mwy deniadol y gall y gymuned gyfan fod yn falch ohono. Lle’r oedd yr ardal yn dechrau mynd a’i phen iddi, mae bellach yn rhywle i bobl ailgysylltu â byd natur a mwynhau’r awyr agored.

Ac nid dyna ddiwedd y stori! Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i wneud mwy o waith gwella yn haf 2026. Rydym yn chwilio am gyllid i osod meinciau newydd a bwrdd dehongli a fydd yn helpu ymwelwyr i ddysgu mwy am y bywyd gwyllt rhyfeddol a’r cynefinoedd yn y warchodfa.

Mae’r prosiect yn enghraifft wych o’r hyn y gellir ei gyflawni pan mae preswylwyr, y gwasanaeth Tai a phartneriaid yn cydweithio. Diolch i bawb a leisiodd eu barn a helpu i amlygu’r angen am newid. Mae eich sylwadau’n helpu i greu lleoedd gwyrddach a gwell i bawb eu mwynhau.

**O’r blaen:**



**Ar ôl y gwaith:**



# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) a'r Ddeddf Hawliau Rhentwyr - beth maen nhw'n ei olygu i rentwyr tai cymdeithasol yng Nghymru?

Erthygl gan TPAS Cymru.

## Beth yw'r Ddeddf Hawliau Rhentwyr?

Drwy'r Ddeddf Hawliau Rhentwyr, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn newid y gyfraith i roi mwy o hawliau i denantiaid. Fe welwch sôn yn y cyfryngau am y Ddeddf newydd a hoffem egluro sut y bydd yn effeithio arnoch chi fel rhentwyr tai cymdeithasol yng Nghymru.

Yng Nghymru, fe wnaeth y Ddeddf Hawliau Rhentwyr ddiwygio'r ddeddfwriaeth oedd mewn grym - 'Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru)'. O ganlyniad i hynny, mae dau o bethau'n newid i rentwyr tai cymdeithasol (a rhentwyr preifat) yng Nghymru. Daeth y newidiadau hynny i rym ar Fehefin 1 2026.

## Beth yw'r newidiadau?

Mae'r contract ar gyfer yr eiddo rydych yn ei rentu'n newid.

Mae'n rhaid i'ch contract gynnwys gwybodaeth ('telerau') newydd sy'n golygu na fedr landlord wahaniaethu yn eich erbyn os ydych chi'n hawlio budd-daliadau neu bod plentyn yn byw yn eich cartref neu'n ymweld â chi.

**Pwyntiau allweddol:**

- Gall landlordiaid ddal i osod cyfyngiad ar nifer y plant ar yr aelwyd mewn rhai amgylchiadau, fel er mwyn peidio â gorlenwi'r eiddo, er enghraifft. Nid yw hynny'n wahanol i'r sefyllfa ar hyn o bryd - os caniateir i blant fyw neu ymweld â chi, ni fydd hynny'n newid.
- Mi ddylai eich i'ch landlord gysylltu â chi i roi gwybod erbyn 14 Mehefin 2026 boed hynny wyneb yn wyneb, drwy'r post neu drwy e-bost (os ydych wedi dweud fod hynny'n iawn). Os nad ydych wedi clywed oddi wrthynt, dylech gysylltu â nhw.
- Pan fydd eich landlord yn cysylltu â chi, bydd naill ai'n rhoi copi newydd o'r contract ichi neu ddatganiad ysgrifenedig o'r hyn sydd wedi newid.
- Mae'r newidiadau hyn yn berthnasol i'r holl gontractau presennol a rhai newydd.
- Ni fydd y newidiadau'n effeithio ryw lawer ar y rhan fwyaf o bobl, ond byddant yn rhoi hawliau cyfreithiol newydd ichi.

Manylir ynghylch y newidiadau ar wefan Llywodraeth Cymru: **https://www.llyw.cymru/rhentu-cartrefi-cwestiynau-cyffredin-tenantiaid**

Mae'n bwysig nodi fod 'plentyn' yn y cyd-destun hwn yn golygu rhywun iau na deunaw oed.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i chi?

Mae'n annhebygol y bydd y telerau newydd yn eich contract yn newid unrhyw beth ichi'n syth, ond mae'n golygu bod y gyfraith bellach yn diogelu eich contract. Ni chaniateir i landlordiaid wahaniaethu yn eich erbyn os ydych chi'n hawlio budd-daliadau neu bod plentyn yn byw yn eich cartref neu'n ymweld â chi.

Mae'n arfer safonol eisoes i landlordiaid ymrwymo i ymdrin yn deg â phobl sy'n hawlio budd-daliadau a rhai sydd â phlant a pheidio â gwahaniaethu yn eu herbyn. Os oes cyfyngiad ar blant yn eich llety presennol ar hyn o bryd, mae hynny'n debygol o barhau. Er enghraifft, os na fedrwch gael plant yn yr eiddo am ei fod yn rhy fach neu'n anaddas – fel llety i bobl hŷn - bydd y cyfyngiad hwnnw'n parhau pan fydd eich contract yn newid.

Y rheswm am hynny yw bod y gyfraith yn dweud bod yn rhaid i unrhyw gyfyngiad fod yn "ddull cymesur o gyflawni nod cyfiawn".

Gallai 'nod cyfiawn' gynnwys:

- Gorlenwi
- Pryderon iechyd a diogelwch
- Math anaddas o lety; er enghraifft, tai i bobl hŷn
- Llety arbenigol fel tai i bobl sy'n cael triniaeth am gamddefnyddio sylweddau.

Os nad ydych chi'n siŵr, siaradwch â'ch landlord.

TPAS Cymru

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru



## Cwestiynau Cyffredin

### Oes gen i ddewis am y newidiadau hyn yn y contract, ac a oes angen imi wneud rhywbeth i'w cadarnhau?

Mae'r newidiadau'n berthnasol i gontractau meddiannaeth pawb sy'n rhentu. Fe'u lluniwyd i amddiffyn tenantiaid rhag gwahaniaethu. Nid yw'r gyfraith yn caniatáu hepgor neu amrywio'r newidiadau ond os yw'r landlord a'r tenant yn cydsynio a bod hynny'n fwy buddiol i'r tenant. Ni fydd hynny'n berthnasol i'r rhan fwyaf o denantiaid yn ôl pob tebyg. Os nad ydych chi'n siŵr, holwch eich landlord. Ni fydd yn rhaid ichi wneud dim na llofnodi unrhyw ddogfen i gadarnhau'r newid.

### A fydd fy mhlant neu lysblant yn cael symud i mewn â mi bellach?

A fedraf fabwysiadu plentyn neu ddechrau maethu? A fydd angen imi hysbysu'r landlord yn ffurfiol os yw fy mhlant yn dechrau byw â mi? Bydd hynny'n dibynnu ar eich amgylchiadau penodol chi. Os oedd rheswm teilwng i'ch contract neu bolisi'ch landlord wahardd plant (oherwydd maint y tŷ neu'i fath, er enghraifft), mae hynny'n debygol o aros yr un fath er gwaethaf y ddeddfwriaeth newydd. Mae'r rhan fwyaf o gontractau meddiannaeth yn pennu disgwyliad y byddwch yn rhoi gwybod i'ch landlord am unrhyw newidiadau o bwys ar yr aelwyd, gan gynnwys os yw plant, llysblant, plant maeth neu aelodau eraill o'r teulu'n dechrau byw gyda chi'n barhaol neu'n hirdymor.

Dylech ddarllen eich contract a pholisïau'ch landlord, a gofyn iddynt am gymorth os nad ydych chi'n siŵr.

### Ydi hi'n bosib y bydd yn rhaid imi symud i rywle llai o faint oherwydd y newid hwn?

Nac ydi, bydd eich contract wedi'i ddiogelu fel y mae ar hyn o bryd.

### Allaf i wneud cais am dŷ cymdeithasol neu Ffeirio Tŷ, os oes gen i blant?

Gallwch, mae hynny'n beth cyffredin. Ni osodir cyfyngiadau ond os yw'r eiddo'n anaddas; yn rhy fach, er enghraifft, neu wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer pobl hŷn.

### Beth os ydw i'n byw mewn llety gwarchod?

Os ydych chi'n byw mewn llety gwarchod i bobl hŷn ac na chaniateir i blant fyw gyda chi ar hyn o bryd, mae hynny'n debygol o aros yr un fath. Efallai bod eich landlord o'r farn bod hynny'n angenrheidiol i sicrhau amgylchedd addas i'r holl breswylwyr, neu'n gorfod bodloni gofynion cyfreithiol. Os oes gennych unrhyw bryderon, cysylltwch â'ch landlord.

### Sut mae landlordiaid cymdeithasol yn cyfleu'r newidiadau hyn i denantiaid, yn enwedig rhai gydag anghenion ychwanegol?

Bydd landlordiaid yn anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r newidiadau atoch erbyn 14 Mehefin er mwyn esbonio beth fydd yn newid a pham a'ch cyfeirio at adnoddau ychwanegol sydd ar gael os yw hynny'n berthnasol. Bydd tenantiaid ag anghenion penodol yn dal i dderbyn cefnogaeth briodol.

### Beth ddylwn ei wneud os credaf fod fy landlord yn gwahaniaethu yn fy erbyn er gwaethaf yr hawliau newydd hyn?

Dylech sôn am eich pryderon wrth eich landlord yn gyntaf. I gael mwy o gyngor, mae Llywodraeth Cymru'n argymell eich bod yn cysylltu â Shelter Cymru.

### A oes unrhyw amgylchiadau lle gallai hawlio budd-daliadau effeithio'n anuniongyrchol ar benderfyniadau ynglŷn â thenantiaeth?

Ni chaniateir i landlord wahaniaethu yn eich erbyn am eich bod yn hawlio budd-daliadau. Gallant, serch hynny, gynnal asesiadau o fforddiadwyedd i sicrhau y gallwch dalu'r rhent. Dylai'r asesiadau hynny ystyried pob ffynhonnell incwm yn deg, gan gynnwys cyflog, pensiwn, taliadau cynnal a budd-daliadau.

# Cadw'ch Cartref yn Ddiogel – pam ei bod yn bwysig ein gadael i mewn

Dylai eich cartref fod yn lle diogel a sicr i chi a'ch teulu bob amser. Dyna pam rydym yn cynnal profion diogelwch yn rheolaidd – a dyna pam ei bod mor bwysig ein bod yn gallu dod i mewn i'ch cartref pan mae angen.

## BETH YW'R PROFION DIOGELWCH?

Maent yn cynnwys:

- Profion nwy blynyddol
- Profion trydan bob pum mlynedd
- Profi glendid dŵr
- Trin cyfarpar tanwydd solet ac olew
- Archwiliadau asbestos o bryd i'w gilydd
- Mesurau diogelwch tân.

Mae'r ymweliadau hyn yn ein helpu i sicrhau fod popeth yn eich cartref yn gweithio'n iawn. Mae'n fwy na dim ond ticio bocsys – mae'r profion yn hanfodol er mwyn canfod problemau posib yn gynnar, cael gwybodaeth fanwl i'n cynlluniau ar gyfer gwaith gwella yn y dyfodol, a'ch cadw chi'n ddiogel.

Mae'n ofynnol hefyd inni gynnal archwiliadau'n llai aml i asesu cyflwr yr eiddo'n gyffredinol. Mae hynny'n ein helpu i gynllunio unrhyw welliannau sy'n ofynnol i gydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru, gweler tudalen 10.

## EICH DIOGELWCH CHI SY'N BWYSIG

Gwyddom ei bod yn anghyfleus weithiau i adael rhywun i mewn i'ch cartref a bod hynny'n ymddangos yn ddiangen ar brydiau – yn enwedig os yw popeth yn gweithio'n iawn yn ôl pob golwg. Ond mae llawer o risgiau, fel carbon monocsid yn gollwng neu namau trydanol, yn rhai na fedrwn eu gweld.

**Mae'r profion yn helpu i:**

- Atal sefyllfaoedd peryglus cyn iddynt ddigwydd
- Eich amddiffyn chi, eich teulu a'ch cymdogion
- Cadw eich cartref yn gynnes ac yn ddiogel a sicrhau fod popeth yn gweithio'n iawn.

## GALLWN WEITHIO O'CH CWMPAS CHI

Rydym yn gwybod fod bywyd yn brysur. Dyna pam fyddwn yn:

- Rhoi rhybudd ichi o apwyntiadau
- Cynnig amseroedd hyblyg lle bo modd
- Ei gwneud yn haws aildrefnu os oes angen.

Os na fyddwch chi adref ar gyfer apwyntiad, rhowch wybod inni – byddwn yn hapus i drefnu amser arall sy'n addas i chi.

## PWY FYDD YN YMWELD?

Bydd ein contractwyr a'n staff bob amser:

- Yn cario cerdyn adnabod
- Yn ymddwyn yn broffesiynol a pharchus yn eich cartref
- Yn dilyn safonau llym ar gyfer diogelwch a diogelu.

Os nad ydych chi'n siŵr am rywbeth, peidiwch â bod ofn gofyn i weld cerdyn adnabod neu gysylltu â ni i holi.

## OS NA FEDRWN DDOD I MEWN

Mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn cynnal profion diogelwch ac mae'n rhaid inni sicrhau fod pob cartref yn ddiogel. Os na fedrwn ddod i mewn ar ôl ceisio gwneud fwy nag unwaith, gallai fod yn rhaid cael gorchymyn llys a chi fyddai'n talu'r costau – sefyllfa y byddai'n llawer gwell gennym ei hosgoi.

## HELPWCH NI I'CH CADW CHI'N DDIOGEL

Drwy ein gadael i mewn ar gyfer yr ymweliadau pwysig hyn, rydych yn ein helpu ni i amddiffyn eich cartref a'ch cymuned.

Os ydych chi wedi colli apwyntiad neu bod arnoch angen trefnu un, cysylltwch â ni heddiw – rydym yn barod i helpu.